

Nodiadau Cyfarwyddyd Sut i wneud cais

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymgeisio ar gyfer un o'n swyddi gwag. Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn help i chi gyda'ch cais a dymunwn bob llwyddiant i chi.

Sicrhewch eich bod chi'n darllen yr holl wybodaeth sydd ar gael ar gyfer y swydd hon yn ofalus cyn i chi ddechrau llenwi'r Ffurflen Gais. **Ni dderbynnir CV** yn lle ffurflen gais neu fel tystiolaeth gefnogol.

Bydd llunio rhestr fer yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y Ffurflen Gais ac felly mae'n hanfodol eich bod chi'n dangos yn glir, gydag enghreifftiau, sut rydych chi'n bodloni gofynion y swydd wag.

Yn yr adran Addysg a Chymhwyster, gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi darparu manylion teitl y cwrs, yr arholiadau a safwyd a lle astudio. Os yw'r fanyleb person yn gofyn am leiafswm o gymwysterau posibl, graddau a phynciau penodol e.e. 5 TGAU Gradd C gan gynnwys mathemateg, sicrhewch eich bod chi'n darparu'r manylion hyn yn eich cais. Ni fydd nodi 5 TGAU heb raddau na phynciau'n ddigonol. Yn Adran Addasrwydd ar gyfer y Swydd y Ffurflen Gais, sicrhewch eich bod chi'n esbonio yn sut rydych chi'n bodloni gofynion y swydd wag – po fwyaf eglur/mwyaf perthnasol y wybodaeth a ddarperir, mwyaf amlwg fydd y rhestr fer a'r llwyddiant a gewch wrth gyrraedd y cam cyfweiliadau.

Mae'n rhaid i chi allu dangos sut rydych chi'n cydweddu â meini prawf y swydd wag, e.e. os yw sgiliau TGCh yn ofynnol i'r swydd, ni fydd dweud eich bod chi'n gallu defnyddio cyfrifiaduron yn ddigonol. Fodd bynnag, os dywedwch "...rydych yn defnyddio cyfrifiaduron yn eich gwaith yn rheolaidd, gan hel taenlenni ar Excel at ei gilydd, creu cyflwyniadau PowerPoint ar gyfer sesiynau hyfforddi, a chreu dogfennau ar Word", hyn fyddai'n ddigonol. Rhai o'r ceisiadau gorau yw'r rhai sy'n ymdrin â phob elfen o o'r fanyleb person, gan gyflwyno enghreifftiau ynglŷn â sut mae'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf.

Cyn i chi gyflwyno'ch cais, rydym yn eich cynghori i:

- Argraffu/cadw copi er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.
- Darllenwch drwyddo i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr a bod y sillafu wedi'i wirio.
- Sicrhewch eich bod wedi nodi digon o enghreifftiau i ddangos sut rydych chi'n bodloni meini prawf y fanyleb person.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych chi gopiâu o bob cymhwyster perthnasol, dogfennau hunaniaeth a thrwydded yrru (lle bo'n briodol) oherwydd bydd angen gwirio'r rhain os ydych chi'n cael eich galw am gyfweiliad.

Gofynnir i chi hefyd lenwi ffurflen Monitro Data Cyfleoedd Cyfartal a ddefnyddir at ddibenion monitro'n unig.

Pan fydd swydd yn gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), byddwch yn anfon ffurflen "Datgan Euogfarnau Blaenorol", ynghyd ag amlen rifedig. Mae angen dychwelyd y ffurflen hon yn yr amlen gywir. Os nad ydych chi'n llwyddiannus yn y cyfweiliad, dychwelir eich amlen atoch, heb ei hagar.

Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad cau.

Gellir cadw'r holl wybodaeth a ddarperir mewn dogfennaeth cais a gyflwynir, neu rannau ohoni, mewn ffeiliau papur neu gyfrifiadurol i'w defnyddio at ddibenion gweinyddol gan adran AD ateb group i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol. Bydd defnydd o'r fath yn destun darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Cyfeiriwch at ein Hysbysiadau Preifatrwydd a'n polisiau preifatrwydd mewn perthynas â sut rydym yn defnyddio'ch data.